Cynefinoedd ledled Cymru i elwa ar fuddsoddiad



Hikers in the Brecon Beacons. Credit: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae un ar ddeg o brosiectau wedi derbyn hyd at £250,000 o arian gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur i ddiogelu, cadw a hyrwyddo treftadaeth naturiol ledled y wlad.

O ddolffiniaid trwynbwl i loÿnnod byw, bydd y cyllid yn helpu sefydliadau a grwpiau cymunedol i wella'r modd y caiff byd natur ei reoli a'i fonitro ar y môr ac ar y tir.

Mae'r prosiectau – sy'n ymestyn o Fae Caernarfon i'r Bannau Brycheiniog – yn cynnwys cynlluniau i ymgysylltu cymunedau Cymreig â rhyfeddodau eu tirweddau lleol a'u bywyd gwyllt.

> Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan gydweithio â sefydliadau a phobl ledled y wlad.
>
> *Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog Cymru*

Gwarchod cynefinoedd hanfodol a rhywogaethau dan fygythiad

Rydym niad
cynefin edau
i fonitr



Credit: Chloe Robinson / Sea Watch Foundation.

Mae Bae Ceredigion yn fagwrfa boblogaidd i'r trwynbwl oherwydd ei gynefin bas, cysgodol. Mae ymchwilwyr yn casglu gwybodaeth am amgylchedd y dolffin a thueddiadau poblogaeth dros ddegawdau. Bydd yr hyfforddiant a'r arolygon yn helpu i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol o'r mamaliaid poblogaidd hyn.

Mae grantiau diweddaraf y Gronfa Rhwydweithiau Natur hyn hefyd yn cefnogi:

- **Gwarchod Gloÿnnod Byw (Butterfly Conservation)** (dyfarnwyd £249,995) i ymchwilio i boblogaeth a lledaeniad Gweirlöyn Mawr y Waun (Large Heath butterfly). Bydd hefyd yn ymchwilio i weld a yw presenoldeb y glöyn byw yn arwydd o adfer corsydd yn llwyddiannus a beth arall y gellir ei wneud i warchod mawndiroedd ledled Cymru.
- **Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (The Bat Conservation Trust)** (£245,099) i asesu iechyd amgylcheddau coedwigoedd glaw tymherus ar draws Gogledd Cymru i gynorthwyo cynlluniau cadwraeth ar gyfer rhywogaethau ystlumod sydd dan fygythiad. Bydd hefyd yn hyfforddi gwirfoddolwyr i fonitro cynnydd yr ystlumod.
- **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** (£224,487) i sefydlu partneriaeth rhwng ffermwyr, porwyr a'r sectorau cyhoeddus a phreifat i reoli bioamrywiaeth ac adferiad natur ar Gomin Maenor Penderyn.

Rydym wedi dosbarthu'r grantiau ar ran Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Her frys

Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog â chyfrifoldeb dros Newid Hinsawdd, Huw Irranca-Davies: "Rwy'n falch iawn y bydd 11 o brosiectau eraill yn elwa o gyfran £2.7m o gyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur.

"Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, gan gydweithio â sefydliadau a phobl ledled y wlad. Mae'r bartneriaeth hon rhwng Llywodraeth Cymru, y Gronfa Dreftadaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru yn allweddol i wneud newid cadarnhaol i bobl a byd natur ledled Cymru."

Darganfod mwy

Archwiliwch fuddsoddiadau diweddar pellach mewn gwarchod coetiroedd Cymru a darganfod mwy am yr amrywiaeth o brosiectau treftadaeth naturiol rydym yn eu cefnogi ledled y DU.



efyd mewn ...

Credyd: Tim Jones Photography 2015.



goedwigoedd a choetiroedd bach yng Nghymru

Cronfa Rhwydweithiau Natur: £7.2 miliwn i amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd Cymru sydd dan fygythiad



Drew Bennellick, ein Pennaeth Tir, Môr a Natur, a Harriet Bennett, Swyddog Rheoli Tir prosiect Partneriaeth Tirwedd Chilterns, gydag Andrew Stubbings, o Manor Farm, sef enghraifft o dirwedd gysylltiedig. Ffoto: Oliver Dixon.

Ariannu gwerth £150miliwn i wella a gwarchod tirweddau safon fyd-eang y DU